

Cymharu nodweddion Rhyddfrydiaeth Glasurol a Rhyddfrydiaeth Fodern (AO1, AO2)

Mae'r tabl isod yn amlinellu amryw o safbwyntiau rhyddfrydol gwahanol. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus ac yna rhannwch y safbwyntiau gwahanol yn: i) rhai y byddai Rhyddfrydwyr Clasurol yn credu ynddynt; a ii) rhai y byddai Rhyddfrydwyr Modern yn credu ynddynt.

Yna, ceisiwch drefnu'r pwyntiau mewn modd a fyddai'n caniatáu i chi lunio ateb effeithiol i'r cwestiwn canlynol: 'Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng Rhyddfrydiaeth Glasurol a Rhyddfrydiaeth Fodern?'

Os nad yw trefniadau cyfreithiol a gwleidyddol cymdeithas yn rhoi mantais annheg i unrhyw grŵp (e.e. bod rhai swyddi statws uchel wedi eu cyfyngu i ddynion neu bobl croenwyn) yna gellir casglu bod gan bawb o fewn cymdeithas gyfle cyfartal.	Er mwyn hybu rhyddid, cydraddoldeb a llwyddiant holl aelodau cymdeithas dylai'r wladwriaeth fynd ati i ymyrryd mewn nifer o feysydd cymdeithasol (e.e. addysg a iechyd) ac economaidd (e.e. cynlluniau creu gwaith).
Mae rhyddid yn galw am wneud mwy na dim ond cael gwared ar rwystrau a gadael llonydd i'r unigolyn. Er mwyn sicrhau gwir ryddid mae angen rhoi cyfle i'r unigolyn ddatblygu ei alluoedd a'i ddealltwriaeth o'r byd.	Ar faterion economaidd, dylai'r wladwriaeth gael safbwynt <i>laissez-faire</i> , gan beidio ag ymyrryd o gwbl yn sut mae'r economi yn gweithio.. Bydd hyn yn arwain at economi mwy hyblyg ac effeithiol.
Yn y lle cyntaf, mae pawb yn unigolion gwahanol sydd â chymeriad, chwaeth a hunaniaeth unigryw. Ond dylid hefyd gydnabod arwyddocâd y cysylltiadau rhwng unigolion ac unedau ehangach fel y teulu, y gymdeithas a'r genedl.	Mae pobl yn greaduriaid cwbl annibynnol a hunangynhaliol sydd â'r gallu a'r crebwyll i edrych ar ôl eu hunain. Nid oes gan unigolion gyfrifoldeb tuag at eraill neu at y gymdeithas yn gyffredinol.
Byddai cymdeithas wâr yn amhosib heb wladwriaeth. Ond dylid cyfyngu llawer ar gyfrifoldebau'r wladwriaeth. Ni ddylid caniatáu iddi wneud dim mwy na'r hyn sy'n hanfodol er mwyn cynnal cyfraith a threfn a diogelu unigolion rhag ymosodiad.	Yn ogystal â sicrhau na fydd unigolion yn wynebu unrhyw rwystrau cyfreithiol neu wleidyddol ffurfiol, mae gwarantu cyfle cyfartal i bawb yn galw am sicrhau na fydd amodau cymdeithasol ehangach (e.e. tlodi, diffyg addysg, diffyg gofal iechyd) yn amharu ar eu hymdrechion.
Bydd yr unigolyn yn rhydd cyn belled ag y bo'n cael llonydd i fyw ei fywyd heb unrhyw ymyrraeth a'i fod yn medru ymddwyn mewn modd sy'n dderbyniol yn ei farn ef/hi.	Dylai'r wladwriaeth fod yn barod i chwarae rôl weithredol yn yr economi gan ddefnyddio gwariant cyhoeddus a threthi i reoli lefelau 'galw'. Bydd hyn yn arwain at drefn economaidd sefydlog.